OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 1264

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

PROSPECTIVE

RHAN 5

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i gael eu cymryd wrth gychwyn y ddarpariaeth o ofal a chymorth

Adolygu cynllun personol

16.—(1) Rhaid i'r cynllun personol gael ei adolygu fel sy'n ofynnol, a phan fo'n ofynnol, ond o leiaf bob tri mis.

(2) Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, rhaid i unrhyw adolygiad o'r cynllun personol gael ei alinio â'r adolygiadau y mae'n ofynnol iddynt gael eu cynnal gan yr awdurdod lleol o dan Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(**1**).

(3) Rhaid i adolygiadau o gynllun personol gynnwys adolygiad o'r graddau y mae'r unigolyn wedi gallu cyflawni ei ganlyniadau personol.

(4) Wrth gynnal adolygiad o dan y rheoliad hwn, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys yr unigolyn, yr awdurdod lleoli (os yw'n gymwys) ac unrhyw gynrychiolydd. Ond nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnwys cynrychiolydd—

(a) os yw'r unigolyn yn oedolyn neu'n blentyn 16 oed neu drosodd ac nad yw'r unigolyn yn dymuno i'r cynrychiolydd gael ei gynnwys, neu

(b) pe byddai cynnwys y cynrychiolydd yn anghyson â llesiant yr unigolyn.

(5) Ar ôl cwblhau unrhyw adolygiad sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ystyried a ddylai'r cynllun personol gael ei ddiwygio a diwygio'r cynllun yn ôl yr angen.

Gwybodaeth Cychwyn

I1 Rhl. 16 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

(**1**) O.S. 2015/1818 (Cy. 261).

Statws
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

Changes and effects yet to be applied to :

– reg. 16 coming into force by S.I. 2017/1264 reg. 1(2)

Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

– reg. 3(1)(h)(i) inserted by S.I. 2019/757 reg. 5(b)
– reg. 35(8A)(a)(iv) inserted by S.I. 2022/832 reg. 3(c)(iii)